

## Twyllo'r cawr

(gweld cyfle / dewrder)

Yn ôl pob hanes Fingal oedd y rhedwr gorau a'r ymladdwr gorau yn Iwerddon. Roedd pawb drwy'r wlad yn ofni Fingal. Roedd Fingal yn gyntaf ymhob ras ac ef oedd yn bencampwr ym mhob ymladdfa. Byddai'r bobl yn dweud, "Does yna neb yn debyg i Fingal."

Un diwrnod clywodd Fingal fod cawr mawr o'r Alban, Cucullain, ar ei ffordd o'r wlad honno ac ar ei ffordd i Iwerddon i ymladd â Fingal. Ond yn ôl pob hanes roedd Cucullain yn ddyn mawr, mawr. Yn ôl pob stori roedd yn gallu symud mynyddoedd. Doedd Fingal ddim yn edrych ymlaen at yr ornest efo Cucullain o gwbl. "Beth ydw i'n mynd i'w wneud?" meddai wrth Oona ei wraig. "Bydd wedi fy ngwasgu'n gwstard melyn. Mi ydw i ofn y bwli mawr o'r Alban!"

"Paid ti â phoeni," meddai Oona'n bwylllog, "mae gan bob dyn mawr ryw wendid bach yn rhywle. Rwy'n siŵr nad ydi'r cawr Cucullain ddim mor filain ag y mae pawb yn ei ddweud."

"Ond Oona bach!" meddai Fingal, "mae hwn, yn ôl pob sôn, yn gallu symud mynyddoedd. Mae'n nhw'n dweud fod ei holl nerth ym mys canol ei law dde. Ond pa wahaniaeth mae hynny'n mynd ei wneud i mi?"

"O!" meddai Oona'n feddylgar.

Yn sydyn daeth sŵn mawr heibio'r tŷ. Dyma sŵn y cawr o'r Alban.

"I ble ga i fynd i guddio?" gofynnodd Fingal.

"Tyrd yn sydyn," meddai Oona. "Mi ro i ddillad y babi amdanat ti ac fe gei di fynd i'r crud a chymryd arnat mai ti yw'r babi."

Ymhen dim roedd Fingal wedi'i wisgo mewn dillad baban a dyna lle roedd yn swatio yn y crud. Daeth curo mawr ar y drws ffrynt. Rhedodd Oona i agor y drws. Agorodd y drws yn ofalus a dyna lle roedd Cucullain, y cawr o'r Alban, yn sefyll.

"Bore da!" meddai'r cawr, "os ydi hi'n fore da hefyd. Ble mae o! Rwy'n barod i roi fy mhump arno er mwyn i mi gael gwasgu ei esgyrn yn siwrwd!"

"O!" meddai Oona'n grynedig, "mae o wedi mynd allan i siopa i mi. Ond mae croeso i chi ddod i mewn i ddisgwyl amdano."

Fydd o ddim yn hir iawn.”

Camodd y cawr i'r tŷ nes roedd y waliau'n crynu.

“O! peidiwch â gwneud sŵn,” meddai Oona wrtho, “mae'r babi newydd fynd i gysgu yn ei grud. Dydi o ddim wedi cysgu dim neithiwr, dim ond crio drwy'r nos. Gwynt neu ddannedd neu'r ddau . . .”

Trodd y cawr i edrych ar y crud. “Wel dyma fabi bach tlws,” meddai'n dyner. Gwasgodd Fingal ei hun yn llai ac yn llai. Roedd yn chwysu chwartiau yn y dillad tyn ac roedd hi'n boeth gynddeiriog yn y crud.

“Faint ydi ei oed o?” gofynnodd y cawr.

“Mi fydd o'n dri mis oed yfory,” meddai Oona.

“Wel mae o'n beth bach del,” meddai'r cawr. Dechreuodd gosi'r babi bach o dan ei ên. Yn sydyn dyna Fingal yn brathu bys canol y cawr. A dyma fo'n dechrau ei gnoi yn gynddeiriog. Roedd bys y cawr wedi ei frathu – hwn oedd y bys oedd yn cynnwys holl nerth y cawr. Neidiodd Fingal o'r crud gan ddiog ei ddillad baban.

Ond roedd Cucullain, y cawr o'r Alban, ar ei ffordd drwy'r drws.

“Dyna ti,” meddai Oona wrtho, “dyna ti wedi cael gwared â chawr mawr yr Alban. Ddaw o byth yn ôl i aflonyddu arnon ni. Pan fydd bwli wedi cael ei orchfygu ddaw o byth yn ôl wedyn. Rhai fel'na ydi bwlis a chewri.”

Eisteddodd Fingal ac Oona i gael pryd blasus cyn mynd i'r gwely.



Adnod: “Clywsoch ddywedyd wrth y rhai gynt, ‘Na ladd, pwy bynnag sy'n lladd, bydd yn atebol i farn.’ Ond rwyf fi'n dweud wrthyich y bydd pob un sy'n ddiog wrth ei frawd yn atebol i farn.” Mathew 5:21–22



Gwedi: Weithiau, Arglwydd, mi fydda i'n cael fy mwlio. Wnei di ddangos i mi y ffordd orau i ddelio efo nhw? Amen.



Trafod:

- Chwedl o lwerddon ydi'r chwedl hon. Beth ydi gwerth chwedlau y dyddiau hyn?
- Fedrwch chi feddwl am chwedlau tebyg i hon? Beth am chwedlau o Gymru?